# PERTHYN

Gorffennaf 2025 Rhifyn 339



## *Yr Haf*

*Dduw Dad,*
*Diolchwn i ti fod yr haf hir disgwyliedig wedi cyrraedd*

O weddi gan Casi Jones yn *Amser i Dduw* (gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

# Gair gan y Gweinidog



Medi 1992 a minnau newydd symud i dref Croesoswallt. Wedi blynyddoedd o ddarparu, dyma ddechrau yn y Weinidogaeth a dechrau byw ar fy mhen fy hun. Prynu ambell gadair, etifeddu gwely a desg gan aelod o'r teulu, bwrdd cegin a chadeiriau gan un o'r aelodau, gofalu bod yna lestri a thegell a'r hen deipiadur fu'n ffyddlon ym mlynyddoedd coleg, bellach yn eistedd yn awdurdodol yn y stydi. Heblaw am system ffôn, dyna'r unig dechnoleg oedd yn y mans hyd nes i mi brynu peiriant ateb a theledu a pheiriant golchi yn ystod y flwyddyn gyntaf. Gwahanol iawn i heddiw! Heb fanylu, mae bywyd wedi newid gymaint gan gynnwys y Weinidogaeth.

Wrth deithio yn y car y diwrnod o'r blaen dyma wrando ar sgwrs ar Radio Cymru, eitem yn trafod y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys WhatsApp. Yn ddiweddar fe ofynnwyd i mi pam nad oeddwn ar WhatsApp ac felly mewn ufudd-dod i'r holwr, dyma lawrlwytho'r cyfrwng yma. Wnâi ddim manylu, dim ond dweud fy mod wedi derbyn neges gan un o'r plant yn dweud yn syml, "Croeso Dadi!" Fe'm hysbyswyd y byddwn yn gallu bod yn rhan o'u grŵp teuluol bellach; Alwen, Dafydd ac Anna ac yn gallu gweld yr hyn sy'n cael ei ddweud a chyfrannu! Da iawn ond efallai ddim, a dyna oedd swm a sylwedd yr eitem ar y radio, bod gwybodaeth sy'n cael ei rannu ar y cyfrwng yma yn gallu cael ei ddefnyddio mewn achosion cyfreithiol h.y. os dywedwch rywbeth negyddol am sefyllfa neu unigolyn, a bod eraill yn gweld hyn, yna fe ellir ei ddefnyddio yn eich erbyn.

O glywed hyn, dyma fyfyrio ar y canlynol –

Geiriau Llythyr Iago yn y Testament Newydd i ddechrau –

*Â'r tafod yr ydym yn bendithio'r Arglwydd a'r Tad; â'r tafod hefyd yr ydym yn melltithio'r rhai a luniwyd ar ddelw Duw.'*

*Gall geiriau fod yn bethau perygl, yn bendithio ac yn melltithio, ond hefyd meddyliau sy'n rhoi bod i eiriau.*

Yn ogystal, rhywbeth mor slic yw cyfathrebu bellach. Ac nid yn unig y weithred o ddweud ond hefyd y weithred o wneud. Ar nodyn gwahanol, cyfeiriwyd at e-byst yn ystod yr eitem a'r disgwyliad bod rhywun yn ymateb yn syth. Dyna ddysgu gwers i mi! Fel llawer i un arall, dydw i ddim y gorau am ateb e-byst yn syth, mae'r amser yn brin weithiau a throeon eraill, yr awydd, ac ar ben hynny, 'does gen i fawr o amynedd! Ond byd fel yna ydi hi, a ninnau fel eglwys yn ceisio byw a thystiolaethu yng nghanol y cyfan. Mae yna wersi i'w dysgu ond ar yr un pryd, gwersi i'w dysgu am Dduw a'i deyrnas yn arbennig yng nghyd-destun amser.

Ac yna, y ddealltwriaeth o dechnoleg yn creu perthynas, creu grwpiau, peth yn dda a pheth yn ddiddim! A ninnau wedi dathlu'r Pentecost, gyda'i bwyslais ar waith yr Ysbryd Glân a bodolaeth yr Eglwys, mae yna alwad arnom i ddeall o'r newydd ystyr cymod, yn athrawiaethol ond yn fwy na hynny, yn ymarferol. Mewn byd sy'n cael ei nodweddu yn rhy aml o lawer gan rwygiadau a thensiynau, yr alwad i ddyrchafu bywydau'n gilydd mewn gair a gweithred, ac yng nghanol ein gwahaniaethau, i weld ein gilydd fel mae'r Apostol yn ei ddweud -

*O hyn allan, felly, nid ydym yn ystyried neb o safbwynt dynol.*

Dipyn o her, ac eto'n her i weld ein gilydd yng ngoleuni Duw, ac o ddarganfod ein hunain yn y fath gyflwr, troi'r hyn sy'n eiriau yn weithredoedd o gariad a chyfiawnder.

Daliwch ati!

*Eifion.*

## Neges oddi wrth Elin, Ioan, Elan ag Alis Mabbutt

Carem ddiolch o waelod calon i deulu'r Morfa am y gefnogaeth, y caredigrwydd a'r cariad a ddangoswyd tuag atom fel teulu yn ystod yr amser heriol diweddar. Diolch hefyd i'r Parch. Eifion Roberts, yr aelodau a'r blaenoriaid a fu yn ein cynorthwyo efo'r Gwasanaeth Angladd a gynhaliwyd yng Nghapel y Morfa - er yn achlysur trist, roedd yna naws hyfryd yno. Roedd sicrhau bod teulu di-Gymraeg Jeremy yn rhan o'r gwasanaeth yn bwysig i ni fel teulu, ac roeddent i gyd yn gwerthfawrogi'r croeso a'r gefnogaeth a estynnwyd iddynt yn ystod y diwrnod. Roedd Jeremy yn ŵr a thad arbennig sy'n gadael bwlch difesur. Gyda llawer o ddiolch, Elin, Ioan, Elan ac Alis.

## Newyddion

*Cofion*
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mair Jones ac at Dafydd Evans a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion hefyd at y rhai sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi gofal ac yn eu cartrefi eu hunain.

*Dymuniadau gorau i* Dai Alun a Jane Jones a fydd yn dathlu eu priodas ddiemwnt ar Orffennaf 10fed - sef 60 mlynedd ers iddynt briodi yn Eglwys Penrhyn-coch. Llongyfarchiadau. Mwynhewch eich diwrnod.

*Llongyfarchiadau*
Yn y rhifyn diwethaf o Perthyn roedd llun o Wynford Evans gyda'r dystysgrif a dderbyniodd oddi wrth Sasiwn y De wrth iddo ddathlu 75 mlynedd fel blaenor yn yr Henaduriaeth. Ymddiheuriadau iddo am roi 70 yn lle 75 mlynedd yn Newyddion Perthyn y mis diwethaf.

Anfonwn ein cofion a'n llongyfarchiadau i chi, Wynford. Mae'n dda deall eich bod yn mwynhau darllen Perthyn ac yn edrych ymlaen bob mis at ei dderbyn.

*Cydymdeimlad*

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs. Eileen Jones, Penlan. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mab Rhys, a'r wyrion, Gruff ac Anwen yng Nghaerfyrddin ac Ann, llysferch Eileen a Graham, ei llysfab.

Cydymdeimlwn â Mrs. Mair Jones ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith sef Mr Dai Jones, Aberystwyth ac ewythr i Carys a David.

Cydymdeimlwn hefyd â Nia a Meurig Royles ar farwolaeth brawd-yng-nghyfraith Nia, sef Mr Michael Jones, Caerdydd ac ewythr i Elin.

Cydymdeimlwn â Neville a Brian Evans ar farwolaeth eu tad, sef Mr Cledwyn Evans, Stryd Cambria.

*Llongyfarchiadau* i'r myfyrwyr a'r disgyblion sydd wedi graddio neu sydd wedi cwblhau eu harholiadau a'u hastudiaethau. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau pennod newydd yn eu bywyd.

DIOLCH yn FAWR i bawb ddaeth i gefnogi Bore Coffi'R Clwb Sul ar fore dydd Sul, Mehefin 22ain. Diolch i'r plant a'r ieuenctid am yr adloniant ac am ofalu am y tasgau dyfalu enw'r tedi a nifer y losin mewn potel.

Diolch i'r rhieni am eu cymorth gyda'r trefniadau ac am weini'r te a'r coffi. Gwnaethpwyd elw o £500 tuag at Apêl Manipur yn yr India.

# Newyddion Ebeneser



Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion cynhesaf at ein haelodau yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn methu ag ymuno yn y gwasanaethau ar brynhawn Sul ar hyn o bryd.

Braf yw croesawu Mr John Price yn ôl wedi cyfnod yn yr ysbyty.

**Cydymdeimlad**

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Eileen Jones, Penlan. Cydymdeimlwn â'i mab Rhys a'r wyrion, Gruff ac Anwen yng Nghaerfyrddin. Cydymdeimlwn hefyd ag Ann a Graham, ei llysferch a'i llysfab a'r teulu oll.

**Gwasanaethau mis Gorffennaf**:

Gorffennaf 6 - Gwasanaeth Cymun am 2.15. o'r gloch

Gorffennaf 20 - Gwasanaeth yn Ebeneser am 2.15.

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein Gweinidog Y Parchedig Eifion Roberts.

# Er Cof



## Catherine Eileen Jones

“Helo, Penlan. Fel yna byddai Eileen yn ateb y ffôn, cyfarchiad oedd yn dweud popeth. ‘Penlan’ oedd enw’r cartref ym Mhenparcau ond yn fwy na hynny, cartref ei phlentyndod yn Nhrisant. Fel ‘merch y bryniau’ fyddai’n cyfeirio at ei hunan, a’r teitl yna’n cwmpasu ei magwrfa, yn bobl a phrofiadau. Arhosodd y cyfan trwy gydol ei bywyd, a bu’r dylanwadau hynny yn gyfryngau i’w mowldio rhan cymeriad, diddordebau a ffydd. Wedi derbyn ei haddysg elfennol, dechreuodd weithio yn rhai o swyddfeydd Aberystwyth a’i threfnusrwydd yn chwedlonol, cyn dechrau gweithio fel bwrsar yn y Coleg Diwinyddol Unedig. Yno cyfarfu â llu o bobl yr enwad, yn fyfyrwyr, gweinidogion a swyddogion a gellir dweud y bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dragwyddol ddyledus iddi am ei dawn weinyddol a’i chyfeillgarwch.

Yng nghanol hyn i gyd cyfarfu â Sinnett, cyfarfyddiad arweiniodd at berthynas a phriodas, a’r ddau yn deall ei gilydd i’r dim. Ymhen amser daeth Rhys a bu blynyddoedd cynnar ei blentyndod ac ieuenctid yn rhai llawn prysurdeb, gyda mam a thad cariadus yn dangos pob arwydd o gefnogaeth a chyfleon. ‘Prowd’ fyddai’r gair

addas wrth feddwl am lwyddiannau Rhys, ac ymhen amser daeth Eileen yn fam yng nghyfraith i Rhian a mam-gu i Gruff ac Anwen. Tristwch mawr iddi oedd afiechyd a marwolaeth Rhian ac ni allwn ddechrau dychmygu ei theimladau a'i galar.

Bu'n gefnogol i gymaint o sefydliadau trwy gydol ei bywyd ac yn eu plith; Y Papur Sain, Eisteddfodau, Y Blaid, Cyfeillion yr Ysbyty heb anghofio Radio Cymru. Yn barod ei barn a'i chyfraniad, yn ei geiriau ei hun, roedd y radio yn 'gymaint o ffrind' iddi.

Fel llawer i un arall, bu'n ffyddlon i'w chapel. Yn bresennol yn yr oedfa foreol yng Nghapel y Morfa ac Ebeneser, Penparcau yn y prynhawn, yn drysorydd y cyfarfod Cymdeithas a Gweddi ar fore Mawrth. Hefyd Ffydd a Phaned ar brynhawn dydd Gwener, y cyfan yn adlewyrchu ymroddiad ond yn fwy na hynny, argyhoeddiad a ffydd. Ni fu'r blynyddoedd olaf hyn yn rhai hawdd iddi, a bu'n ddibynnol ar garedigrwydd gymaint o aelodau'r teulu a ffrindiau.

Wedi cyfnod pellach o salwch, daeth y daith i ben yn dawel yn Ysbyty Bronglais.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhys, Gruff, Anwen, Ann, Graham a Dewi ei brawd, yn eu profedigaeth.

Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa ar y 19eg o Fehefin ac yn dilyn ym mynwent Trisant gyda'r Parchedigion Eifion Roberts, John Tudno Williams, Beti Wyn James, Wyn Morris a Mrs Elen Worman yn gwasanaethu.

.

## Cinio Bara a Chaws

Ni fydd y Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn digwydd dros yr haf. Cynhelir y cinio nesaf ar ddydd Llun, **1 Medi rhwng 12.00 a 1.30pm** (lleoliad i'w gadarnhau).

**Diolch am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn**.

## 80 oed

Mae 2025 yn flwyddyn arbennig i Cymorth Cristnogol – mae'r elusen yn dathlu ei phen blwyddyn 80 oed! Ers 1945, mae wedi bod yn gweithio'n galed a diflino i fynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo cyfiawnder ar draws y byd. Mae'r mudiad yn edrych yn ôl ar dros wyth degawd o weithredu ffydd, gobaith a chariad gan ddathlu cyfraniad anhygoel y mae'r eglwysi a chymunedau ledled Cymru a thu hwnt wedi'i wneud. I nodi'r pen blwydd arbennig hwn, bu Erin ac Elliw yn nodi hynny y tu allan i'r Morfa.



Drwy gydweithio gyda Cymorth Cristnogol gallwn weithredu 'grym anorchfygol gobaith' (the unstopable power of hope) y mae mawr ei angen ar ein byd y dyddiau hyn.

# Gweddi

## Gwyliau

Diolchwn am yr adnewyddiad
a rydd gwyliau i'n bywyd;
am gyffro'r disgwyl a'r cynllunio;
am ryddid oddi wrth ddyletswyddau bob dydd;
am brofiadau a chyfleoedd newydd.



Rhoddaist fyd rhyfeddol i ni;
Ble bynnag yr awn fe'n hamgylchynir
Gan bethau sy'n bleser i'r llygaid
Ac yn faeth i'r meddwl.

Helpa ni i ddefnyddio'n gwyliau
i ganfod dy ogoniant di yn dy greadigaeth;
i ddefnyddio'n rhyddid i ddeall yn gliriach
y cyflawnder bywyd yr wyt ti'n ei gynnig i ni'n barhaus.

Derbyn ein diolch am gyfoeth amrywiol bywyd,
a phan ddaw ein gwyliau i ben,
arwain ni'n ôl i'n cartrefi yn ddiogel,
wedi'n hadnewyddu a'n hysbrydoli
o gael gorffwys a chael mwynhau
rhyfeddodau dy fyd di.

*Roy Chapman*
*Allan o "Amser i Dduw", golygydd - Elfed ap Nefydd Roberts*

# Clwb Sul y Morfa

Bu mis Mehefin yn brysur iawn ac roedd cyfle i gynnig gweithgareddau amrywiol yn seiliedig ar storiâu oedd yn berthnasol i gyfnod y Pentecost. Roedd y stori Picnic ar y Traeth yn cyflwyno hanes Iesu yn ymddangos i'r disgyblion ar lan Môr Galilea. Rhoddodd gyfarwyddyd iddynt daflu'r rhwyd i ochr arall y cwch a'u galluogi i ddal helfa fawr o bysgod. Yna gwahoddodd hwy i rannu pryd o fwyd ar y traeth ac ymddiried y gwaith o ofalu, arwain a chenhadu i Seimon Pedr. Mae'r pysgod lliwgar yn y llun yn cofnodi'r hanes.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Teulu ar Sul y Pentecost. Cyflwynwyd stori'r Pentecost trwy gyfrwng ffilm fideo a chafodd y plant a'r ieuenctid gyfle i wneud crefftau'r Pentecost yn y capel wrth i Eifion gyflwyno Apêl Manipur yn yr India lle y dinistriwyd eglwysi, cartrefi ac ysgolion a gorfodi'r trigolion i ffoi i Mizoram. Yn dilyn y gwasanaeth rhannwyd cacen ben-blwydd y Pentecost a chanwyd Pen-blwydd hapus i'r Eglwys.

Ar Sul y Tadau dewiswyd cyflwyno Stori'r Mab Afradlon gan ein bod ninnau hefyd yn diolch bob amser am y croeso a'r cariad a dderbyniwn gyda'n teuluoedd yn ein cartrefi.

Wrth i ni baratoi ar gyfer ein bore coffi a'n ymdrech i gynorthwyo pobl Manipur. Pa well stori i'w rhannu na'r Samariad Trugarog sydd yn ein dysgu ni i helpu eraill ac i rannu ein consyrn a'n cariad?

Roedd yn braf mwynhau cwmni pawb fel un teulu yn y Bore Coffi a gweld Y Parchg Aled Davies, Y Cyngor Ysgolion Sul yn ymuno ar ôl arwain y gwasanaeth. Thema ei neges i'r plant a'r ieuenctid oedd Arwyr. Ef enillodd y gystadleuaeth "Peas" mewn potel a'r wobr oedd bocs o siocledi HEROES!

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ac am gyfrannu at y cyfanswm ardderchog o £500 at Apêl Manipur.

Edrychwn ymlaen at y Sul Hwyl ar Fferm y Bargoed (Moody Cow) ar y 6ed o Orffennaf pan gawn gyfarfod ag Ysgolion Sul eraill o dan arweiniad Mr. Nigel Davies. Wedyn, cawn fwynhau cinio gyda'n gilydd cyn mentro ar y gweithgareddau antur sydd ar y fferm.

## Lluniau o weithgareddau'r Clwb Sul

Yn ystod mis Mehefin, mae aelodau'r Clwb Sul wedi mwynhau gweithgareddau amrywiol yn seiliedig ar Iesu'n cwrdd â'i ffrindiau tra oedden nhw'n pysgota, dyfodiad yr Ysbryd Glân ar Sul y Pentecost, stori'r Mab Afradlon ar Sul y Tadau a stori'r Samariad Trugarog gyda Bore Coffi at Apêl Manipur yn yr India. Codwyd £513.38 yn y Bore Coffi. Diolch yn fawr i bawb - y gynulleidfa am gefnogi'n frwd, y plant am berfformio'n wych a'r rhieni am weinyddu'n effeithiol.



Iesu'n cwrdd â'i ffrindiau'n pysgota.



Crefftau'r Pentecost




Y Mab Afradlon / Sul y Tadau



Y Samariad Trugarog








Bore Coffi at Apêl Manipur

# Anterliwt newydd Cwmni'r Morlan: Triawd y Domen




Yn 2017 mewn anterliwt na fu ei bath o'r blaen fe lwyddodd Donald, Boris, Nigel a Teresa i droi Stryd y Domen yn cul-de-sac. Codwyd wal ar draws y stryd er mwyn cadw pobl goman draw. Bellach mewn anterliwt wleidyddol newydd mae rhif 10 Stryd y Domen yn gartref i Keir a Luned heb anghofio Nigel, tra bod dau arall yn rhif 11 sef Liz Gwallt Bob Lliw a Rhun. Ond er bod y tenantiaid yn newydd does fawr o newid yn y sefyllfa a does fawr o Gymraeg rhwng y ddau dŷ. Nid yw Liz a Rhun yn fodlon efo'r cul-de-sac, ond mae Nigel wrth ei fodd, ond am Keir a Luned does wybod beth yw eu barn. Mae gan y ddau duedd i newid eu meddwl yn aml.

Efallai eich bod yn cofio fod Jeremy yn crwydro llwyfan yr anterliwt yn 2017 yn chwilio am ei gath Sosialaeth. Flynyddoedd yn ddiweddarach mae Sosialaeth yn dal ar goll. Ond mae o'n bryder i Jeremy fod Donald yn mynnu bod pobl ddieithr "yn bwyta cathod." Tybed beth yw tynged Sosialaeth erbyn hyn?



*Cartŵn gan Gareth Owen*

Rhag ofn eich bod yn meddwl nad yw troi Stryd y Domen yn cul-de-sac wedi newid dim ar y stryd, dylid dweud bod mainc ar ymyl y stryd erbyn hyn. Ond yn anffodus mae'n fangre gysurus i bob math o gardotwyr, y di-waith, y di-glem a'r diddim, a dydy nhw byth yn brin o bethau i'w dweud. A chyda cymorth Eurig Salisbury, Iwan Bryn James, Arwel Rocet Jones, Phil Davies ac eraill mae pob un yn llefaru eto mewn mudr ac odl.

Os ydych yn greadur ymholgar, neu eisiau newid y byd, dewch draw i'r Morlan ac fe rown y byd yn ei le mewn anterliwt ddychanol, Triawd y Domen. Y cyfan ar gael Nos Lun a Nos Fercher 14 ac 16 Gorffennaf am 7.30, a hynny am bris rhesymol o £5. Prynwch docyn yn Inc, neu mentrwch brynu wrth y drws.

Wrth gwrs dychmygol yw pawb o gymeriadau'r anterliwt, mae unrhyw debygrwydd i bobl go iawn yn gwbl ddamweiniol!

*John Roberts*

## Sasiwn Cenhadol Chwiorydd y De 2025



Cynhaliwyd y Sasiwn Cenhadol y De yng Nghapel Salem Treganna, Caerdydd ar ddydd Iau, Mai 22ain. Tro Henaduriaeth Morgannwg - Llundain oedd croesawu'r Sasiwn eleni ac estynnwyd croeso cynnes ar ran yr Henaduriaeth ac Eglwys Salem gan Mrs. Elsbeth Edwards a oedd yn llywyddu rhan gyntaf y cyfarfod. Eleni penderfynwyd cynnal un cyfarfod ac wrth lunio'r rhaglen sicrhawyd fod cynrychiolaeth o'r tair Henaduriaeth yn cymryd rhan yn y cyfarfod. Yr organydd oedd Nia Roblin.

Daeth Y Parchedig Carwyn Arthur, Llywydd Cymdeithasfa'r De ymlaen i ddwyn cyfarchion i'r Sasiwn Cenhadol oddi wrth Gymdeithasfa'r De, i ddymuno'n dda iddi ac i ddiolch am waith y chwiorydd. Derbyniwyd y casgliad a gofynnwyd bendith ar y casgliad a'r defnydd ohono gan y Parchedig Evan Morgan, Gweinidog Salem.

Braint oedd croesawu'r Siaradwr, sef Dr Cynan Llwyd, Prif Weithredwr Cytun. Testun ei anerchiad oedd "Undod mewn Cenhadaeth". Er yr amrywiaethau, rydym fel canghennau o'r un

goeden yn cerdded mewn cenhadaeth gyda'n gilydd i adeiladu teyrnas Iesu.

Y darlleniad a ddewiswyd ganddo ar gyfer y Defosiwn oedd hanes Dorcas o lyfr yr Actau. Roedd Dorcas yn tystiolaethu trwy ei bywyd o wasanaeth tawel i nerth yr atgyfodiad. Roedd hi'n gwasanaethu trwy wnïo dillad i'r gweddwon a'r tlodion ac roedd rhan hanfodol gan Pedr hefyd yn yr hanes gan mai ef oedd yn sefyll ac yn gweddïo.

Cyfeiriodd Cynan at ein gwaith a'n cenhadaeth fel pe baem yn creu cwilt gyda'n gilydd trwy gyd-weithio a rhannu ein diddordeb a'n dawn gyda'r nod o wasanaethu. Mae'r cwilt yn ein huno ac yn ymestyn yn eang i gyrraedd eraill. Diolchwyd yn gynnes iawn i Cynan am ei neges a'i anogaeth a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd ac fel arweinydd Eglwys Yr Angor yn ardal y Bae Caerdydd -eglwys sydd wedi ei phlannu gan gapel Ebeneser.

Mae'n gyfle yn y Sasiwn Cenhadol i goffau rhai a wasanaethodd yn y maes Cenhadol ac a fu farw yn ystod y flwyddyn. Cafwyd coffâd a theyrnged deilwng iawn i Mrs. Margaret Jones, Aberystwyth a fu farw haf y llynedd ymhell dros ei chant oed gan y Parchedig Dafydd Andrew Jones.

Cyflwynwyd amlen yn cynnwys y casgliad eleni i Sarah Morris gan y Trysoryddion, Catherine Hughes a Delyth Rees. Diolchwyd i'r eglwysi yn yr Henaduriaethau am eu haelioni arferol er mwyn datblygu'r gwaith cenhadol yma yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Mae'r llyfr thema bob amser yn gyfrwng i wneud hyn, yn ogystal ag i ddatblygu ein bywyd defosiynol personol. Felly braint oedd cael derbyn y llyfr thema newydd "Iesu, yr Atgyfodiad a'r Bywyd". Diolchwyd i Sarah, Carys ac Eirian am eu gwaith yn paratoi'r holl adnoddau ar ein cyfer ac am yr astudiaethau Beiblaidd bob pythefnos ar Zoom.

Cawsom ein croesawu'n gynnes iawn gan Mrs. Margaret Daniel i'r Sasiwn flwyddyn nesaf yng Nghapel Blaenannerch yn

Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddiwrnod arall bendithiol.

Ar ôl i'r Llywydd gyflwyno'r diolchiadau, daeth y Sasiwn i ben gyda gweddi a offrymwyd gan Thomas Ellis Williams, Arweinydd Capel Heol y Grwys

Gwahoddwyd ni i'r festri ar gyfer y te ac fel arfer roedd gwledd o fwyd blasus wedi ei baratoi ar ein cyfer. Roedd cyfle i gymdeithasu â ffrindiau hen a newydd o wahanol rannau o'r wlad a chasglu ein llyfrau thema. Diolchwyd i aelodau Salem am y te ardderchog a'r croeso ac i'r Parchedig Evan Morgan a'r swyddogion am ein croesawu i gynnal y Sasiwn Cenhadol yno eleni.

Trown ein golygon at yr Encil ar Fedi 25 pryd y bydd y Parchedig Aneurin Owen yn ein harwain ac mae'n sicr y cawn ein hysgogi i gynorthwyo Manipur trwy gefnogi Apêl y Llywydd.

Wrth ymadael roedd geiriau'r emyn olaf o waith J.D. Vernon Lewis yn rhoi gobaith ac anogaeth i ni

"Saif ein gobaith yn yr Iesu,
Brenin nef, goleuni'r byd
…gwneler ni
fyth yn dystion gwir i ti."

*Eleri Davies*

# Wolf Hall yn y Llyfrgell Genedlaethol




Mae Beiblau wedi cael cryn sylw yn ystod yr wythnosau diwethaf, gyda Beibl Cymraeg 1588 gyflwynwyd i Abaty Westminster yn cyrraedd Tŷ Ddewi. Mae Gerald Morgan yn trysori Beibl 1654 - sef Beibl Cymraeg Oliver Cromwell, Beibl cyn brinned â dannedd iâr chwedl Gerald sydd wedi dod i’w feddiant. Ac ar ben hyn oll dau Feibl Saesneg, copïau cyflwyno o Feibl Mawr 1539, yn cael eu harddangos yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Mae’r ddau Feibl Saesneg yma yn unigryw, copïau cyflwyno arbennig, un i’w roi i’r brenin Harri’r VIII ac un i’w gadw gan y noddwr Thomas Cromwell. Mae un yn eiddo'r Llyfrgell Genedlaethol ers rhyw ganrif, os deallaf yn iawn drwy garedigrwydd y chwiorydd Davies, ac mae’r ail gopi yn eiddo Coleg Ioan Sant, Caergrawnt. Hyd y gwyddys dyma’r tro cyntaf iddynt gael eu harddangos ar y cyd ers eu hargraffu.

Mae’r ddau Feibl wedi eu hargraffu ar groen llo, yn hytrach na phapur ac mae’r lluniau ynddynt wedi eu lliwio gan artistiaid crefftus, ac mewn ambell achos lluniau newydd wedi eu gosod. Nid yw’r arbenigwyr yn rhy sicr pa un oedd yn eiddo’r brenin a pha

un yn eiddo Thomas Cromwell, ond y mae ymchwil gan ddefnyddio technegau gwyddonol diweddaraf wedi datgelu pob math o straeon am y Beiblau.

Roedd Thomas Cromwell, un o brif weinidogion Harri VIII, yn allweddol yn y paratoi. Os ydych wedi gwylio'r gyfres deledu Wolf Hall (addasiad o nofelau Hilary Mantell) rydych wedi dod i adnabod Cromwell yn go dda! Gwyddai na allai'r diwygiad Protestannaidd lwyddo heb fod gan yr eglwys yr Ysgrythurau yn iaith y bobl. Ond roedd y brenin yn amheus am roi'r Beibl yn nwylo pobl gyffredin, felly aeth Cromwell ati i geisio argyhoeddi'r brenin o rinwedd cael Beibl yn Saesneg. Mae blaenddalen hardd Beibl Caergrawnt yn brawf fod ei ymdrech yn parhau hyd yn oed wrth gyhoeddi'r gyfrol (gyda llaw mae blaenddalen Beibl y Llyfrgell wedi ei cholli cyn iddi ddod i'r Llyfrgell). Yr hyn a geir ar y flaenddalen yw llun amlwg iawn o Harri'r VIII ar ei orsedd, a Christ yn weddol fychan uwch ei ben. Ond mae'r brenin yn cyflwyno copi o'r Beibl i'r Archesgob Cranmer ar y dde iddo, ac i Cromwell ar y chwith, y naill yn cynrychioli'r eglwys a'r llall y wladwriaeth.



*Blaen dudalen y Beibl Mawr (Great Bible) lle gwelir Harri VIII ar ei orsedd yn rhoi'r Beibl i Cranmer a Cromwell. Diolch i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt am y llun*

Yna gam yn is yn y llun gwelir Cranmer yn rhannu'r Beibl i'w offeiriaid, tra ar yr ochr arall, nid Cromwell welir yn dosbarthu. Mae ymchwil i'r cyfrolau yn dangos mai Richard Rich bortreadir. Credir mai gofal Cromwell yw'r achos am hyn, rhag iddo gael ei weld yn mynd yn groes i ddymuniad y brenin drwy rannu'r Beibl i bobl gyffredin. Yna islaw fe bortreadir y bobl gyffredin, nid yn darllen y Beibl, nid hyd yn oed yn addoli na gweddïo, ond yn hytrach yn gweiddi “Hir oes i'r brenin”. Trwy hyn roedd Cromwell am ddangos i'r brenin y byddai derbyn y Beibl yn eu hiaith yn gwneud pobl yn ddiolchgar i'r brenin ac yn ennyn eu teyrngarwch a'u ffyddlondeb. Fel y dywedodd un o'r arbenigwyr wrth agor yr arddangosfa mae'r llun yn enghraifft gynnar o ddefnyddio cyfryngau torfol i berswadio pobl o le canolog y brenin, ond o argyhoeddi'r brenin hefyd o deyrngarwch pobl y ffydd iddo ef.



*Techneg X-ray Fluorescence (XRF) yn cael ei ddefnyddio i ddarganfod gwybodaeth am y Beibl Mawr. Diolch i'r Llyfrgell Genedlaethol am y llun.*

Nodwedd arall o angen Cromwell i berswadio'r brenin oedd bod ymchwil yn dangos ei fod wedi cael artistiaid i newid un o gymeriadau'r argraffiad, sef gwraig wedi ei hamgylchynu gan blant. Mae'r wraig yn y copi cyflwyno wedi ei ddarlunio o'r newydd, cyn debyced ag y gellid dychmygu at lun o Jane Seymore, trydedd wraig Harri a mam ei unig fab. Mae hi wedi ei gwisgo gan yr artist mewn gwisg o arian, a byddai yn sefyll allan yn y llun.



*Tudalen o'r Beibl Mawr. Diolch i'r Llyfrgell Genedlaethol am y llun.*

Artistiaid o Ffrainc oedd wedi lliwio'r lluniau, ond mae ymchwil yng Nghaergrawnt wedi profi fod y llun o Cromwell ei hun wedi ei ychwanegu mae'n debyg yn Lloegr. Yn ddigon tebyg er mwyn sicrhau fod y llun mor gywir â phosibl mae wyneb Thomas Cromwell wedi ei lynu dros yr argraffiad gwreiddiol. Roedd yn amlwg am sicrhau nad oedd amheuaeth yn meddwl neb pwy oedd prif weinidog Harri. Yn eironig wrth gwrs, roedd Thomas Cromwell wedi ei ddienyddio gan y brenin o fewn llai na dwy flynedd.

Mae'r Beiblau hyn yn hynod hardd, ac yn rhyfeddol i'w gweld, ond y mae'r stori tu ôl iddynt yn hynotach fyth. Bydd yr arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol tan ganol Tachwedd, mae'n werth ymweliad.

*John Roberts*

# Gweddi: Heddwch yn y byd

*Mae heddwch y byd yn y fantol pan gofiwn am y sefyllfa yn nwyrain Ewrop a'r Dwyrain Canol. Dyma sydd yn y newyddion yn barhaus.*



Llewyrcha dy wyneb arnom, O Arglwydd,
Drwy roi i ni'r tangnefedd hwnnw na all y byd ei roi,
Fel y dilëerpob casineb a chreulondeb
Sydd yn achosi rhyfeloedd,
Ac fel y delo dynion ym mhob man
i oddef ei gilydd mewn cariad, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

O Dduw ein Tad, gweddïwn am dy fendith
ar bawb sy'n ymdrechu am wir frawdoliaeth,
ac yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder.
Llywia a llwydda waith y Cenhedloedd Unedig,
er diogelwch y byd, er daioni i ddynion ymhob man
ac er gogoniant i'th enw di.

Arwain calonnau a meddyliau gwladweinwyr,
Fel y ceisiont yn gyntaf dy deyrnas di,
A sefydlu cyfiawnder a rhyddid i'r holl bobloedd,
A dwg ni i undeb yn Iesu Grist, ein Harglwydd.

Arglwydd, gwna ni'n gyfryngau dy dangnefedd,
I hau cariad lle bo casineb,
I faddau lle bo cam,
I uno lle bo ysgar,
I blannu ffydd lle bo amheuon,
A gobaith lle bo digalondid,
I hau goleuni lle bo tywyllwch,
A llawenydd lle bo tristwch,
Er mwyn dy drugaredd a'th wirionedd. Amen.

Allan o *Cymer fy munudau – Elfed ap Nefydd Roberts*

# Ysgol Sumud Gaza



Mae Cyfeillion Palestina Gorllewin Cymru wedi bod yn cyfeillio a chefnogi pobl ar y Lan Orllewinol ers deng mlynedd, ac o ganlyniad gofynnwyd i'r Cyfeillion gefnogi sefydlu ysgol babell i blant sy'n ffoaduriaid yn Deir Al-Balah yng nghanol Gaza. Mae hon yn ardal gyda dros 300 o deuluoedd yn byw mewn pebyll. Mae'r plant wedi cael eu dadleoli dro ar ôl tro ac nid ydynt yn gallu mynychu'r ysgol. Gyda chymorth Grŵp Cyfeillion Palestina, mae gweithwyr lleol wedi sefydlu ysgol sy'n darparu addysg, cwnsela a bwyd i dros 200 o bant 5-12 oed am 3 diwrnod yr wythnos. Gair Arabeg yw Sumud sy'n arbennig i Balesteiniaid sy'n ymgorffori diysgogrwydd a gwytnwch.

Os hoffech gyfrannu i gefnogi'r gwaith pwysig yma, mae yna flwch casglu arian yng nghyntedd Capel y Morfa, neu mae modd cyfrannu'n uniongyrchol drwy drosglwyddo arian i'r cyfrif canlynol:



West Wales Friends of Palestine (WWFOP)
Côd didoli - 16-58-10
Rhif cyfrif 20647492

Os am fwy o wybodaeth cysyllter gyda
Bethan Miles – bethan.crwth@gmail.com.






## Blaenor y mis: Wyn Hughes

## Dyddiadur Gorffennaf 2025

**Gwasanaethau'r Sul: 10 y bore yng Nghapel y Morfa ac ar Zoom. 2:15 y prynhawn yn Ebeneser ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul o'r mis.**

6 - Y Parchg Eifion Roberts (oedfa Gymun am 5 y.h.)
13 - Y Parchg John Roberts
20 - Y Parchg Eifion Roberts
27 - Tudur Dylan Jones

**Rhestr flodau Capel y Morfa**

6 - Dai Alun a Jane Jones
13 - Vi Holden a Joyce Knight
20 - Ann, Lewis a Hywel Jones
27 - Sara Williams

**Ysgol Sul:** Plant ac ieuenctid: yn y festri.

**Cylch gweddi a choffi:** Bore Mawrth am 11 y.b. ar Zoom.

**Ffydd a phaned:** Prynhawn Gwener am 2 y.p. ar Zoom.

**Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd.**
**Diolch i Catherine am anfon y lluniau ar gyfer y rhifyn hwn.**
**Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Awst / Medi o Perthyn i Hywel (hywel.lloyd6@gmail.com) erbyn dydd Gwener 18 Gorffennaf, os gwelwch yn dda.**